**CYPE(6)-20-23 - Papur i'w nodi 10**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg

26 Mehefin 2023

**Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

Annwyl Efa,

Yn ddiweddar, gwnaethom lansio ymchwiliad newydd ac eang sy'n edrych ar fynediad plant a phobl ifanc anabl at addysg a gofal plant. Mae'r ymchwiliad hwn yn cael ei osod yng nghyd-destun Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Rydym yn gofyn p'un a yw darparwyr gofal plant, ysgolion ac awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Rydym wedi cadw'r cwmpas yn eang yn bwrpasol gan gwmpasu pob agwedd ar ddarpariaeth ysgol statudol a gofal plant. Mae'n cwmpasu niwrowahaniaeth ac anableddau corfforol, synhwyraidd a dysgu. Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar dudalen we ein hymchwiliad, gan gynnwys sut i ymateb i'r ymgynghoriad:
https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=40923

Cynhaliwyd ein sesiynau tystiolaeth lafar cyntaf gyda Chomisiynydd Plant Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ym mis Mai. Yn ystod y sesiwn hon, clywsom fod y Comisiynydd Plant ar fin cyhoeddi darn o waith ar y cyd â chi yn edrych ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Cytunwyd i rannu'r gwaith hwn gyda ni pan fydd ar gael, ac maent wedi gwneud hynny bellach. Gwnaethant hefyd nodi y gall fod rhwystr ychwanegol i blant ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n dymuno mynd i addysg cyfrwng Cymraeg.[1]

Yn ogystal â thynnu eich sylw at y gwaith hwn, roeddem am ofyn a oes unrhyw faterion penodol mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg neu ddarpariaeth gofal plant ar gyfer plant a phobl

[1] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff [77]

ifanc niwrowahanol neu anabl y teimlwch y dylai'r Pwyllgor fod yn edrych arnynt fel rhan o'r ymchwiliad hwn.

Os bydd angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch am yr ymchwiliad neu ein cais penodol, cysylltwch â'r Clerc, Naomi Stocks ar 0300 200 6222 neu seneddplant@senedd.cymru

Yn gywir,



Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.